**Cyngor Cymuned Llaneilian (311)**
Cofnodion cyfarfod Ebrill 9, 2019 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Elfyn Hughes, Thomas Jones, John Griffiths, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Hefina Williams, Dafydd Griffiths, Cyng. Richard Jones, Carli Evans Thau (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Ian Evans, Glenys Jones

**Yn absennol**: David Gerrard, Cyng. Richard Griffiths, Cyng. Aled Jones

**1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.
Cyn cychwyn y cyfarfod, cadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus bod y cyfarfod wedi ei alw'n gywir a bod cworwm yn bresennol.

**2 Datgan Diddordeb**

Carli Evans Thau – Llwybrau Cyhoeddus (UFA)

**3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Hefina Williams, eilio Helen Hughes.

**4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

**4.1** **Materion Priffyrdd** – Roedd cofnodion y cyfarfod gyda Alun Roberts wedi eu rhannu a'r aelodau cyn y cyfarfod. Nodwyd siom nad oedd un o'r aelodau sirol wedi bod yn bresennol. Derbyniwyd y cofnodion yn gywir gan John Griffiths, eilio gan Gordon Hayes.

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi anfon y cofnodion at Alun Roberts ond nad oedd ymateb swyddogol hyd yma. Mae marciau ffordd ychwanegol wedi eu paentio ar y ffordd osgoi fodd bynnag a teclyn monitor wedi ei osod ger yr ysgol. Daw hefyd llythyr yn rhybuddio bydd Lon yr Ysgol wedi ei gau am gyfnod (dros gwyliau'r Pasg) CT
er mwyn ei drin. Cytuno cysylltu ag Alun Roberts am ddiweddariad a chadarnhad o'r camau oedd wedi eu cytuno yn y cyfarfod.

Cytunodd Cyng Richard Jones wneud ymholiadau ynglyn a swydd ddisgrifiad llenwi ROJ
tyllau a trin y lon mewn argyfwng. Roedd yr aelodau yn bryderus nad oedd gwerth arian yn y ffordd oedd y gwaith yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd gan fod angen ail wneud yr un gwaith tro ar ol tro.

Nodwyd nad oedd y blaenoriaeth traffig ger Top Rallt wedi ei drafod yn y cyfarfod a bod nifer o bobl yn cwyno bod angen bagio i'r lon fawr ar y gyffordd

**4.2** **Blwch Post** – Dim diweddariad.

**4.3** **Stad Dublin** – Cafwyd diweddariad ynglyn a tenantiaeth y tai newydd. Nodwyd pryder bod trigolion yn parcio ar y palmant a hynnu gyferbyn a chyffordd. Nodwyd bod llefydd parcio ar gyfer pob ty yn y datblygiad. Cytuno cysylltu a'r heddlu i godi CT
ymwybyddiaeth o'r broblem. Cytuno hefyd cysylltu gyda Grwp Cynefin i sicrhau bod CT
mynediad i'r ty o'r cefn/lle parcio.

**4.4** **Blwch Ffôn** – Dim diweddariad. Nodwyd bod y blwch yn dal yn ei le.

**4.5** **Baw Ci** – Cadarnhaodd y clerc ei bod yn cwrdd a'r swyddogion ar y safle yfory ac y byddai yn gofyn eto am gael symud bin i Bengorffwysfa.

## 5 Adroddiadau Pwyllgorau

**5.1 Caeau Chwarae – C**adarnhawyd bod y meinciau wedi eu harchebu a bod Magnox wedi gofyn bod plac yn cael ei osod i ddangos eu cefnogaeth. Cytuno byddai plac yn cydnabod y Cyngor Cymuned yn cael eu gosod ar y ddau arall.

**5.2 Llithrfa –** Dim diweddariad ynglyn a'r arwyddion ger y llithrfa. Nodwyd bod disgwyl y goriadau ar gyfer gweinyddu cynllun 2019. Cadarnhawyd bod y goriad ar gyfer y polyn flag wedi ei dderbyn erbyn hyn. Nodwyd bod yr hwrbwrfeistr, Geoff Price yn ymddeol yn fuan.

**5.3 Mynwent –** Mae disgwyl diweddariad gan Huw Roberts ynglyn a'r gwaith diogelwch yn dilyn ei asesiad o'r fynwent. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi bod mewn cysylltiad dwywaith ers y cyfarfod diwethaf.

Nodwyd bod cais cynllunio giat y fynwent yn nwylo CSYM eto a bod disgwyl ymateb ymhen rhai wythnosau. Mae angen cadarnhad eu bod yn fodlon a'r cynllun cyn i'r gwaith ddechrau.

**5.4 Cyllid a Pholisi** – Dim diweddariad

**5.5 Pwyllgorau Allannol** –
Cafwyd adroddiad gan Dafydd Griffiths yn dilyn cyfarfod Siapio Cymunedau. Nodwyd bod Cynllun Adfywio Gogledd Mon (draft) yn cael ei cyhoeddi 8/4/2019 ar gyfer cyfnod o ymgynghori. Nid yw ar wefan CSYM hyd yma.

Cafwyd adroddiad gan Dafydd Griffiths yn dilyn cyfarfod Grwp Prosiect Wylfa Newydd. Mae trafodaethau gyda'r llywodraeth yn parhau, ac mae'r cais cynllunio DCO yn parhau i symud yn ei flaen. Cafwyd wybod bod Gwen Parry Jones wedi gadael Horizon erbyn hyn ac yn gweithio gyda Magnox

## 6 Cynllunio

**6.1 Ceisiadau** – Roedd dau cais i'w ystyried:

- (dim cyf) Codi garej preifat, Cerrig Man – cefnogi CT
- (HHP/2019/68) Fagwyr Isaf – tynnu sylw nad oedd y datblygiad yn gweddu gyda'r adeilad presennol.

**6.2 Penderfyniadau** – Ni chafwyd wybod am benderfyniadau CSYM.

## 7 Materion Ariannol

**7.1 Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£6621.92 R Edwards (Cytundeb cynnal a chadw)
£50.00 Un Llais Cymru (Hyfforddiant (INE/TEH)
£75.00 Yr Arwydd (Cyfraniad blynyddol)
£10.00 Ygol Gynradd Penysarn (Gwobr Gwyn Roberts 2018)
£285.87 Carli Evans Thau (Cyflog)
£240.29 Carli Evans Thau (Costau)
£1440 NBB (Meinciau)
£84.00 Neuadd Bentref (Llogi Ystafell)
£100.00 Clwb Ieuenctid (Cyfraniad – taliad cyntaf)
£50.00 Mon FM (Cyfraniad)

**7.2 Ceisiadau am Arian**
Daw cais cyffredinol gan Yr Arwydd am gyfraniad tuag at gostau cyhoeddi. Nodwyd bod y papur bro yn cael cyfraniad blynyddol gan y Cyngor yn barod.

Daw llythyrau o ddiolch gan y Clwb Ieuenctid a Mon FM.

**7.3 Adroddiad 2018/19**
Dosbarthwyd copi o'r adroddiad chwarterol (diwedd blwyddyn) i bawb oedd yn bresennol a cafwyd esboniad gan y clerc o'r prif wahaniaethau. CT

Nododd y clerc bod cytundeb cyfredol R Edwards i gynnal a chadw'r gwahanol ardaloedd yn y gymuned wedi dirwyn i ben ym mis Mawrth. Cytuno byddai estynu'r gytundeb am flwyddyn ac y byddai adolygu'r gwaith ac anghenion y Cyngor dros y flwyddyn cyn hysbysebu'r cytundeb o'r newydd ddiwedd 2019.

**8 Cronfa Tŷ Moel Isaf**
Cytuno cynnal cyfarfod i drafod y gronfa 24/4/2019 yn y Neuadd am 7 o'r gloch. CT Bydd hyn yn gyfle i unrhyw aelodau sydd ddim am fod ynghlwm a'r gronfa i gadarnhau hynnu a chyfle i ddrafod cyfansoddiad y pwyllgor.

**9 Iechyd a Diogelwch**
Dim

**10 Wylfa Newydd**
Cafwyd diweddariad gan Dafydd Griffiths eisioes (cyfarfodydd allannol)

**11 Gohebiaeth**
Dim

**12 Unrhyw Fater Arall**

**12.1** Cynghowyr Sirol – nododd yr aelodau bod disgwyl i oleiaf un o'r cynghorwyr sirol ROJ fynychu pob cyfarfod. CYtunodd Cyng Richard Jones y byddai yn trefnu gyda'r ddau aelod arall.

**12.2** Clwb Ieuenctid – cafwyd wybod bod y clwb wedi bod yn llwyddianus i ddiogelu £1000 o grant gan yr Heddlu tuag at eu prosiect Cofio.

**12.3** Coed ger Rhos Newydd – nodwyd bod coed yn dechrau pentyrru ar yr hen ffordd unwaith eto. Mae'r adran briffyrdd i fod yn monitro'r sefyllfa.

**12.4** Hyfforddiant Diffibriwleiddwyr – cytuno cynnal sesiwn hyfforddiant nos Fawrth CT 7/5/2019 am 6.30 cyn cyfarfod y cyngor. Bydd y sesiwn yn agored i unrhyw un sydd ROJ am fynychu. Y clerc i wneud poster i'w harddangos yn y siop a'r hysbysfwrdd a hefyd ar y wefan a facebook.

**12.5** Llwybrau Cyhoeddus – cafwyd wybod gan Thomas Jones bod grwp o gerddwyr yn creu anghydfod ac yn anhwyluso tir feddianwyr yn y gymuned wrth fynnu agor llwybrau hanesyddol sydd ddim wedi eu defnyddio am flynyddoedd lawer. Mae Thomas Jones eisioes wedi siarad a'r cyn glerc Gwyn Roberts sydd yn cofio CSYM yn gofyn am restr o lwybrau nad oedd yn cael eu defnyddio neu ddim yn arwain i nunlle dim ond o un ty i'r nesaf (hen lwybrau postmon).

Cytuno byddai well i'r grwp cerddwyr yma addysgu pobl sut i gerdded a pharchu y llwybrau sydd eisioes ar gael, gan gynnwys llwybr yr arfordir.

Nododd Dafydd Griffiths bod map y llwybrau cyhoeddus i'w gael ar y we, ond bod angen blaenioraethu pa lwybrau sydd yn cael eu defnyddio. Cytuno nad oedd pwrpas ail agor llwybr oedd ddim wedi ei ddefnyddio ers blynyddoedd llawer. Fe ofynnwyd os oedd llwybr yn colli statws os nad oedd wedi ei ddefnyddio ers cyfnod.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a'r swyddog tramwy yn nodi nad oedd y Cyngor Cymuned yn gefnogol ail agor hen lwybrau a gofyn pam fod CSYM yn mynnu ail agor y llwybrau hynnu. Cytuno nad oedd pwrpas cerdded y llwybrau er mwyn eu cerdded ac anhwyluso trigolion yr ardal tra fod milltiroedd o lwybrau eraill ar gael yn yr ardal. Trafodwyd yn y gorffennol strategaeth llwybrau CSYM, a cafwyd wybod pryd hynnu byddai CSYM yn adolygu a blaenoriaethu llwybrau i'w cynnal yn fuan. Ble mae'r strategaeth a'r ymgynghoriad yma erbyn hyn a pham nad yw'r Cyngor Cymuned wedi cael mewnbwn ar gyfer llwybrau ein hardal ni. CT

**13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Mai 7, 2019 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.35

**Arwyddwyd**
**Elfyn Hughes**
**Cadeirydd**

CET04/2019